

BŪM AR drywydd arlunydd arbennig ers peth amser bellach ers tua mis Mawrth 1985 i fod yn fanwl gywir. Prysurafl i ychwanegu mai yn achlysurol yn unig y byddaf yn ymroi at y gwaith, pan fyddaf yn teimlo fel cael dihangfa fach fel arfer. Yr arlunydd dan sylw yw un J.J. Dodd.

Fe ddechreuodd fy niddordeb yn y J.J. Dodd hwn wedi i Olygydd gweithgar y cylchgrawn hwn gysylltu â mi tua dechrau 1985 a gofyn am wybodaeth amdano i'w gynnwys yn rhifyn Pasg '85 o Y Casglwr; y rhifyn gyda llun o waith Dodd, sef llun o Hen Stryd Twll yn y Wal, Caernarfon, ar y dudalen flaen.

Wedi derbyn y cais dyma fynd ar fy union at y llyfrau cyfeiriadol

Yna cefais afael ar y gyfrol *The Dictionary of British Watercolour Artists up to 1920* gan H.L. Mallalieu a chael peth goleuni. Troi wedyn at y catalogau priodol yn Adran y Darluniau a'r mapiau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chanfod fod gan y Llyfrgell tua saith o weithiau Dodd.

Erbyn hyn yr oeddwn wedi darganfod mai Joseph Josiah Dodd oedd ei enw llawn a'i fod wedi cael ei eni tua 1809 ac wedi marw tua 1880. Danfonais fy nodiadau i'r Golygydd cyn gynted ag y gallwn ac yn y man fe'i cyhoeddwyd ar dudalen 3 o rifyn Pasg '85 o Y Casglwr.

CYNBOD inc y rhifyn hwnnw wedi cael cyfle i sychu'n iawn cysylltodd un o aelodau Cymdeithas Bob Owen â mi i ddweud wrthyf fod ganddo lun o waith Dodd, llun o Gastell Crieth os cofiaf yn iawn, gyda dyddiad diweddarach na 1880 arno. Dyna ddechrau fy ngofiduria!

Wedi edrych eto ar rai o'r lluniau o waith Dodd sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol gwelais fod tri o leiaf ohonynt wedi eu dyddio yn 1886 ac yna i goronir cyfan gwelais fod y J.J. Dodd hwn yn galw ei hun yn 'Arlunydd Gwalia' weithiau.

Tua'r un pryd digwyddais sylwi fod un o luniau J.J. Dodd, 1809-1880, sef llun o 'Anglesey from Menai Vue Terrace, Upper Bangor, North Wales', wedi ei werthu mewn arwerthiant yng Nghaer ar Ionawr 18fed 1985 am £700.

Wrth grafu yn archifau'r Academi Frenhinol yn Llundain darganfum fod gweithiau J.J. Dodd wedi eu harddangos yn yr arddangosfeydd a gynhaliwyd gan yr Academi yn 1832, 1835, 1838 a 1839. Darganfum i'w waith gael ei arddangos yn arddangosfeydd y Royal Society of British Artists hefyd, yn 1838 a 1839.

Yr oedd y cyfeiriadau hyn yn ei gysylltu â dau le penodol sef Tunbridge a Pharis. Am resymau amlwg ar ôl y cysylltiad â Thunbridge Swydd Caint, yr euthum i ac mewn dim o dro darganfum fod yna griw o Ddodiaid yn gysylltiedig â'r dref a bod tri ohonynt yn arlunwyr o gryn fri.

Gŵr o'r enw Charles Tattershall Dodd oedd un ohonynt, cafodd ei eni tua 1815 a bu farw yn 1878.

(Sarah) Jane Owen oedd enw ei wraig, merch i ffermwr o ardal Dolgellau yn ôl pob tebyg. Arddangoswyd peth o waith Charles Tattershall Dodd yn yr

ARLUNYDD GWALIA

Creodd broblemau i RICHARD LEWIS

Academi Frenhinol hefyd a'r hyn sydd yn ddi-ddorol yw mai llun o "Nant Mill, Caernarvonshire" a ddagoswyd yn 1855, a llun o'r "Old Parliament House, Dolgelly" yn 1858. 'Roedd gan Charles Tattershall Dodd frawd o'r enw Joseph Josiah Dodd.

DYMA'R HYN ddywedir am J.J. Dodd mewn un llyfr ar hanes Tunbridge Wells:

Joseph Josiah was a competent topographical artist who drew for Britton the local publisher. Born in Tunbridge in 1810, he was the non-establishment member of the family who not only drank, but led a peripatetic life around Europe, according to rumour, dying in Russia in 1857.

Dywedir hefyd ei fod wedi cynhyrchu cyfrol o olygfeydd lleol yn 1835, cyfrol a gyflwynwyd i'r Dywysoges Fictoria pan ymwelodd â Thunbridge y flwyddyn honno yn ôl y sôn, ac i Thomas Wise ac yntau

wneud cyfres o luniau ar gyfer cyfrol ar Tunbridge Wells a gyhoeddwyd gan Britton yn 1832. A ddaeth y Joseph Josiah Dodd hwn i Gymru ac ymsefydlu yng Nghaernarfon a Bangor? Yr ateb syml yw nad wyf yn gwybod! Ar yr un pryd yr wyf yn gwybod mai un J.J. Dodd a osodd ar gareg y map prin o Ogledd a Chanolbarth Cymru a'r teitl 'Modryb Gwen' odditeno a hynny oddeutu 1845.

Gwn hefyd fod Directory Slater am 1868 yn nodi fod yna Joseph Josiah Dodd "Artist (landscape)" yn byw yn Mona View, Garth, Bangor, y flwyddyn honno. Erbyn 1874 dywed Directory Worrall mai yn Mount Pleasant Terrace Bangor yr oedd yn byw ac y mae Directory Cassey am 1876 a 1878 yn dweud yr un peth.

Gan fod y gŵr hwn yn byw ym Mangor o gwmpas 1871 meddyliais y gallai fod cofnod o'i enw yng nghofnodion Cyfrifiad y flwyddyn honno. Mawr oedd fy llawenydd pan ddarganfum ei enw yno, yn byw

yn 3 Mount Pleasant Terrace gyda Harriet ei wraig, Edith Agnes ei ferch, Charles Henry ei fab, a Kate Joseph ei ferch arall. Dywedir hefyd mai yn Lerpwl y cafodd ei eni a'i fod yn 50oed yn 1871.

Nid yw'r manylion hyn yn cyfateb yn union i'r rhai roddwyd yn gynharach am J.J. Dodd, Tunbridge ond nid oes sicrwydd pendant fod y manylion hynny'n gywir beth bynnag. Y mae un peth yn eithaf pendant, mae llofnod J.J. Dodd Bangor, a J.J. Dodd, Tunbridge yn debyg iawn i'w gilydd. Ni wn beth a ddigwyddodd i J.J. Dodd, Bangor ar ôl 1878, y flwyddyn y paentiodd lun diddorol o "Tal-y-Llyn Lake and Church, Cader Idris on the left and the little Inn of Tyn-y-Gornel, Merionethshire." Tra'n chwilio am rywbeth arall y diwrnod o'r blaen digwyddais sylwi mewn Directory am 1888-89 fod yna Joseph Josiah Dodd, "Artist Landscape" yn byw yn 39 Waterloo Street, Oldham, y flwyddyn honno.

Yr un diwrnod digwyddais daro fy llaw ar gopi o'r ail argraffiad o *The Dictionary of British Watercolour Artists up to 1920* gan H.L. Mallalieu a sylwi ei fod yn awr yn rhoi dyddiadau J.J. Dodd fel 1810-1894.

MAP Y LLEW


Gan DEWI WILLIAMS

DDIWEDD Mawrth 1739 ysgrifennodd Lewis Morris (Llewelyn Ddu o Fôn) at William Vaughan Corsygedol gan ddatgan iddo fod *the other day at Penmorfa and viewed the way in dispute between Cessail and Porkington and drew Mr Owen a sketch of it, who I hear hath carried ye trial at Shrewsbury.* (Casgliad Mostyn C.P.G.C. Bangor).

Cefndir yr hanes yw'r ymgyfreithio ceccus rhwng William Owen Brogyntyn, perchennog y Clenennau a Lloydiaid y Gesail Gyfarch. Bu'r helynt yn mud-losgi ac ar brydiau'n tanio yn ystod y blynyddoedd rhwng 1733-41. Ceir amlinelliad o'r hanes yng nghyrol orchestrol y Dr Colin Gresham ar hanes tir-feddianaeth yn Eifionydd. Yn 1739 hawliai William Owen fynediad i Dy Cerrig trwy dir perthynol i'r Gesail Gyfarch.

Yng nghasliad Penrhos eto yn llyfrgell prifysgol Bangor ceir llythyr gan Anna Lloyd y Gesail i'w chefneder Edward Wynn o Foderwyd ym Môn yn ei annog i ddefnyddio ei ddylanwad gyda Lewis Morris a pheri iddo lunio map o blaid achos y Gesail Gyfarch. Ond gallwn dybio fod William Owen yn barod i gynnig mwy i'r cartograffydd enwog am ei wasanaeth.

Llawenydd i Lewis Morris oedd cyfarfod gyda 'Wil Elias y Bardd' ym Mhenmorfa *and we got a harpist and datcanwyr and made one Night of it.* Diau mai yn nhafarn Bryn-y-gynnau y bu hyn; newidiwyd ei henw i Bwlch-y-Fedwen ymhen amser. Mae'n debyg mai o'r dafarn hon y bu raid i Hywel Harris ddianc rhag erlidwyr pan arhosai yno i groesi'r Traeth Mawr ar derfyn ei ymweliad cyntaf â Llŷn ac Eifionydd yn 1741. Go brin y



byddai wedi mwynhau'r gyfeddach yn 1739.

WILLIAM Elias, yn enedigol o'r Derwyn Bach yn ôl Myrddin Fardd, a disgybl i Owain Gruffydd Llanystumdwy yw'r bardd ymlith y cwmni diddan yn ddiamau. Ere ei fod yn cael ei gysylltu gyda Phlas-y-Glyn yn Llanfwrog yn y Bywgraffiadur, nodir na symudodd yno hyd 1774. Yn ôl tystiolaeth pennill o'i waith cyrhaeddodd Benmorfa yn 1727 i ddilyn ei alwedigaeth fel crydd.

Nid yw'n eglur ai dyma'r tro cyntaf i Lewis Morris gyfarfod ag ef ond mae'n amlwg i'r ddaud gyd-dynnu o'r cychwyn. *I like him much — Elias is a prophetic bard.*

Pwy tybed oedd y telynor a gyfeiliai i'r datganwyr ar y noson? Ymhen deg mlynedd ganwyd bachgen yn y Garreg Frech, nepell o'r dafarn a adnabyddid yn anterth ei ddyddiau fel Wil Penmorfa, sef William Williams y telynor dall a noddwyd gan deulu Plas Tre-gib, Llandeilo Fawr. Rhestrir John

Parry Rhiwabon fel ei athro yng nghyrol Anne Rosser "Telynuau a Thelynorion", ond mae'n sicr fod rhywun lleol wedi rhoi hyfforddiant elfennol iddo. Tybed a hoffai'r Dr. Meredydd Evans ddilyn y trywydd yma?

Yng nghasliad Brogyntyn yn y Llyfrgell Genedlaethol y canfwm y map. Cred Thomas Roberts, archifydd Prifysgol Bangor mai gwaith Lewis Morris ydyw yn bur bendant. Mae'r llawysgrifen ar ei fapiau o ystâd Bodorgan ym Mangor yn cyfateb i'r "Map o Fryn Coch".

Ffaith ddi-ddorol yw fod hen drigolion y plwyf wedi tystio wrth Anna Lloyd na wyddent am safle'r bryncyn ond lleollir ef yn ddi-gwestiwn gan Lewis Morris ac ni newidiwyd ei ffigur gan dreigl amser.

Ni wŷr Tomos Roberts am unrhyw fap cyffelyb o lecyn penodol a luniwyd gan Lewis Morris. Da fyddai cael gwybod a oes unrhyw enghraifft arall ar gael. A diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am gael defnyddio'r map.